# Arolwg o Farn y Cyhoedd 2018/19

## Adroddiad

## Chwefror 2019

| | |
|---|---|
| **Paratowyd Ar Gyfer:** | **Cyngor Bro Morgannwg** |
| **Paratowyd Gan:** | **Future Focus Research**<br>www.futurefocusresearch.co.uk |

# Cynnwys

Tudalen


1. Crynodeb Gweithredol 1

1.1 Dull Ymchwilio 1
1.2 Gwasanaethau'r Cyngor 1
1.3 Teimlad o Ddiogelwch 1
1.4 Gohebu â'r Cyngor 2
1.5 Cyllideb y Cyngor 2
1.6 Amcanion y Cyngor 2

2. Cyflawni'r Gwaith Ymchwil 3

2.1 Amcanion y Gwaith Ymchwil 3
2.2 Dull Ymchwilio 3

3. Canfyddiadau'r Gwaith Ymchwil 5

3.1 Gwasanaethau'r Cyngor 5
3.1.1 Bodlonrwydd Cyffredinol â Gwasanaethau'r Cyngor 5
3.1.2 Bro Morgannwg fel Lle i Fyw Ynddo 7
3.1.3 Canol Trefi 9
3.1.4 Arfordir Treftadaeth 11
3.1.5 Parciau a Mannau Agored 13
3.1.6 Trafnidiaeth a Phriffyrdd 15
3.1.7 Ailgylchu a Rheoli Gwastraff 17
3.2 Teimlad o Ddiogelwch 19
3.3 Gohebu â'r Cyngor 21
3.3.1 Dylanwadu ar Benderfyniadau a Wneir gan y Cyngor 21
3.3.2 Bodlonrwydd â Dulliau Gohebu 24
3.3.3 Bro Radio 26
3.3.4 Defnyddio Gwefan a Gwasanaethau Ar-lein y Cyngor 27
3.4 Cyllideb y Cyngor 31
3.5 Amcanion y Cyngor 34

# 1. Crynodeb Gweithredol

## 1.1 Dull Ymchwilio

- Cynhaliwyd 1005 o gyfweliadau â sampl gynrychioliadol o drigolion Bro Morgannwg. Cynhaliwyd y cyfweliadau ym mis Ionawr a mis Chwefror 2019.

## 1.2 Gwasanaethau'r Cyngor

- Roedd 87% yn fodlon â'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor.
- Roedd 98% yn fodlon â Bro Morgannwg fel lle i fyw ynddo.
- Y canol trefi mwyaf poblogaidd i ymweld â nhw ar y cyfan oedd y Barri (Heol Holton), Penarth a'r Barri (Stryd Fawr), er nad yw'n syndod mai'r canol trefi yr oedd pobl yn ymweld â nhw gan amlaf oedd y rhai sydd agosaf at le'r oeddent yn byw.
- Pan ofynnwyd iddynt roi eu barn ar ganol y dref yr oeddent yn ymweld â hi fwyaf, barn oddeutu chwech o bob 10 am ystod a dewis o siopau (60%), apêl gyffredinol canol y dref (59%), a chanol y dref yn gyffredinol (57%) oedd da iawn neu eithaf da. Dim ond 22% oedd yn ystyried y parcio yn dda iawn neu'n eithaf da, gyda 75% yn ystyried hyn yn wael iawn neu'n eithaf gwael.
- Roedd bron pawb yn fodlon â'r arfordir treftadaeth yn gyffredinol (99%) a'r llwybrau arfordirol yn y Fro (99%).
- Pan ofynnwyd iddynt am Ynys y Barri, roedd 94% yn fodlon â'r cyfleusterau ac roedd 93% yn fodlon ag Ynys y Barri yn gyffredinol.
- Dywedodd bron pawb eu bod nhw naill ai'n fodlon iawn neu'n eithaf bodlon â'r parciau gwledig (98%), y mannau agored (96%), y parciau (96%) a'r cyfleusterau chwarae (92%).
- Roedd bodlonrwydd ar ei uchaf â mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus (roedd 87% yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon), gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus (83%), gwasanaethau bysiau (79%) a'r gwasanaethau rheilffyrdd (76%).
- Roedd yr anfodlonrwydd mwyaf ynghylch cyflwr y ffyrdd (roedd 81% yn anfodlon iawn neu'n eithaf anfodlon), cyflwr y palmentydd (78%) a diogelwch ar y ffyrdd (60%).
- Roedd oddeutu 9 o bob 10 o drigolion yn fodlon â phob agwedd ar ailgylchu a rheoli gwastraff, ac eithrio'r safonau glendid (roedd 65% yn fodlon).

## 1.3 Teimlad o Ddiogelwch

- Pan ofynnwyd iddynt ynghylch teimlo'n ddiogel, roedd yn rhan fwyaf o'r trigolion yn teimlo'n ddiogel ym mhob sefyllfa.

## 1.4 Gohebu â'r Cyngor

- Er mwyn dylanwadu ar benderfyniad a wnaed gan y Cyngor, byddai ychydig o dan hanner (49%) yn cysylltu â Swyddog Cyngor lleol. Dywedodd ychydig dros chwarter (28%) na fyddent yn ceisio dylanwadu ar benderfyniad gan y Cyngor.
- Roedd bron i dri chwarter (74%) yn anghytuno y gallent ddylanwadu ar benderfyniad a wnaed gan y Cyngor. Dim ond 21% a gytunodd y gallent wneud hynny.
- Roedd 84% yn fodlon â'r ohebiaeth gyffredinol gan y Cyngor. Y bodlonrwydd lleiaf oedd ag e-byst (roedd 76% yn fodlon).
- Roedd 10% yn honni ei bod nhw'n gwrando ar Bro Radio o leiaf unwaith yr wythnos.
- Roedd 68% wedi defnyddio gwefan y Cyngor y llynedd, er eu bod nhw'n gwneud hynny yn eithaf anaml (64% llai nag unwaith y mis).
- Roedd ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau a gynigir gan y wefan yn amrywio rhwng 59% a oedd yn ymwybodol y gallent dalu'r dreth gyngor, a 9% yn unig a oedd yn ymwybodol y gallent gofrestru i siarad mewn cyfarfod pwyllgor.
- Er gwaethaf hyn, dywedodd 77% y byddent yn defnyddio'r wefan i gael gafael ar y gwasanaethau y maent yn gwybod eu bod nhw ar gael.

## 1.5 Cyllideb y Cyngor

- Dim ond 14% oedd yn gwbl ymwybodol o sefyllfa gyllidebol bresennol y Cyngor, ac roedd 43% arall yn ymwybodol ond heb wybod yn llwyr i ba raddau.
- Y dewis a ffafriwyd ar gyfer mynd i'r afael â'r diffyg cyllideb oedd cynyddu'r Dreth Gyngor i gyd-fynd â chyfartaledd Cymru.

## 1.6 Amcanion y Cyngor

- Roedd y mwyafrif helaeth o'r farn y dylai'r holl amcanion aros.

# 2. Cyflawni'r Gwaith Ymchwil

## 2.1 Amcanion y Gwaith Ymchwil

Amcanion yr ymchwil oedd deall:

- bodlonrwydd cyffredinol â'r Cyngor
- bodlonrwydd cyffredinol â Bro Morgannwg fel lle i fyw ynddo.
- amlder ymweld â chanol trefi a'r farn amdanynt
- bodlonrwydd ag agweddau ar y Sir gan gynnwys parciau ac ardaloedd arfordirol
- bodlonrwydd â thrafnidiaeth gyhoeddus
- bodlonrwydd â rheoli gwastraff ac ailgylchu
- y teimlad o ddiogelwch
- y bodlonrwydd â phlismona
- gohebu â'r Cyngor
- y defnydd o wefan y Cyngor
- safbwyntiau ynghylch sut y gall y Cyngor fynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb
- safbwyntiau ar berthnasedd amcanion presennol y Cyngor

Lle bo hynny'n bosibl, caiff y canlyniadau eu cymharu â'r blynyddoedd blaenorol er mwyn olrhain unrhyw newidiadau.

## 2.2 Dull Ymchwilio

Roedd y dull ymchwil a ddefnyddiwyd ar gyfer arolwg 2018/19 yn adlewyrchu'r dull a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd blaenorol er mwyn gallu cymharu'n fwy cywir.

Cynhaliwyd cyfanswm o 1005 o gyfweliadau gyda thrigolion sy'n byw yn Ardal Cyngor Bro Morgannwg. Ni chynhwyswyd trigolion sy'n gweithio i'r Cyngor a dim ond un preswylydd o bob aelwyd oedd yn gymwys i gymryd rhan yn yr arolwg. Cynhaliwyd cyfweliadau fel eu bod nhw'n cynnwys cynrychiolaeth o bob ward fel bod y sampl yn adlewyrchu poblogaeth Bro Morgannwg mor agos â phosibl. Cynhaliwyd y cyfweliadau ym mis Ionawr a Chwefror 2018.

Dangosir dosbarthiad ein sampl yn nhabl 1 isod.

**Tabl 1: Strwythur y sampl**

| Ward | % y boblogaeth | Nifer y sifftiau/ pwyntiau samplu | Nifer y cyfweliadau a gyflawnwyd | % y sampl |
|---|---|---|---|---|
| Llanilltud Fawr | 8.4 | 6 | 90 | 9.0 |
| Cadog | 7.9 | 6 | 90 | 9.0 |
| Illtud | 6.5 | 5 | 75 | 7.5 |
| Dinas Powys | 6.2 | 4 | 60 | 6.0 |
| Y Rhws | 5.5 | 4 | 60 | 6.0 |
| Saint Awstin | 5.1 | 4 | 60 | 6.0 |
| Buttrils | 5.0 | 3 | 45 | 4.5 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Y Bont-faen | 4.9 | 3 | 45 | 4.5 |
| Barug | 4.9 | 3 | 45 | 4.5 |
| Gibbonsdown | 4.7 | 3 | 45 | 4.5 |
| Plymouth | 4.6 | 3 | 45 | 4.5 |
| Cornerswell | 4.2 | 3 | 45 | 4.5 |
| Dyfan | 4.1 | 3 | 45 | 4.5 |
| Castleland | 4.1 | 3 | 45 | 4.5 |
| Court | 3.7 | 3 | 45 | 4.5 |
| Sili | 3.6 | 2 | 30 | 3.0 |
| Stanwell | 3.5 | 2 | 30 | 3.0 |
| Sain Tathan | 3.5 | 2 | 30 | 3.0 |
| Gwenfô | 2.1 | 1 | 15 | 1.5 |
| Saint-y-brid | 2.1 | 1 | 15 | 1.5 |
| Llandŵ/Ewenni | 2.0 | 1 | 15 | 1.5 |
| Llanbedr-y-fro | 1.8 | 1 | 15 | 1.5 |
| Llandochau | 1.6 | 1 | 15 | 1.5 |
| Cyfanswm | 100.0 | 67 | 1005 | 100.0 |

Defnyddiwyd Ffeil Cyfeiriadau Swyddfa'r Post fel ffynhonnell samplu i ddewis y nifer gofynnol o gyfeiriadau cychwynnol ar gyfer pob ward ar hap. Ar ôl dewis cyfeiriadau'r pwynt samplu, gan ddechrau ar bob pwynt, roedd cyfwelwyr yn dilyn llwybrau ar hap i gysylltu ag oedolion a'u cyfweld, yn unol â'r rheolaethau cwota a bennwyd ymlaen llaw. Pennwyd cwotâu ar oedran, rhyw a dosbarth cymdeithasol. Roedd y rhain yn seiliedig ar broffil y boblogaeth wirioneddol ac fe'u dangosir yn nhabl 2 isod.

**Tabl 2: Rheoliadau Cwota**

| Demograffeg | % y boblogaeth | Nifer y Cyfweliadau | % y sampl |
|---|---|---|---|
| **Ardal** | | | |
| Y Barri | 45 | 435 | 43 |
| Dwyrain | 27 | 285 | 28 |
| Gorllewin | 28 | 285 | 28 |
| **Rhyw** | | | |
| Dynion | 48 | 482 | 48 |
| Menywod | 52 | 523 | 52 |
| **Oedran** | | | |
| 16 – 34 | 27 | 272 | 27 |
| 35 – 54 | 38 | 382 | 38 |
| 55+ | 35 | 351 | 35 |
| **Grŵp Economaidd-gymdeithasol** | | | |
| AB | 23 | 271 | 27 |
| C1 | 31 | 340 | 34 |
| C2 | 18 | 171 | 17 |
| DE | 27 | 189 | 19 |
| **Cyfanswm** | **100** | **1,005** | **100** |

# 3. Canfyddiadau’r Gwaith Ymchwil


Mae'r adran hon yn cyflwyno canlyniadau'r gwaith ymchwil. Lle bo gwahaniaethau yn amlwg yn ôl ardal neu ddemograffeg, mae’r rhain wedi eu hamlygu yn yr adroddiadau. Gwnaed cymariaethau ag arolygon blaenorol hefyd pan fo’r rheini’n berthnasol ac ar gael.

## 3.1 Gwasanaethau’r Cyngor

### 3.1.1 Bodlonrwydd Cyffredinol â Gwasanaethau'r Cyngor


Yn gyffredinol, roedd 87% yn fodlon â’r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Ychydig iawn o amrywiad a gafwyd yn ôl ardal – gan amrywio rhwng 92% yng Ngorllewin y Fro ac 86% yn y Barri. Gweler ffigur 1.

**FFIGUR 1**





Ychydig iawn o amrywiad a gafwyd yn ôl oedran, rhyw neu grŵp economaidd-gymdeithasol hefyd gyda bodlonrwydd yn parhau i fod yn uchel ymhlith yr holl breswylwyr. Y rhai mwyaf bodlon oedd grŵp oedran 16 – 34 (92% yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon) a’r rhai lleiaf bodlon oedd y grŵp oedran 55+ (85%). Gweler ffigur 2.

## FFIGUR 2




Roedd cyfran ychydig yn is yn fodlon â gwasanaethau'r Cyngor yn 2018/19 o gymharu â 2016/17 (87% o gymharu â 92%), er bod hyn dal yn uwch nag yn 2014. Y gwahaniaeth mwyaf oedd y gyfran a ddywedodd eu bod nhw'n fodlon iawn (a ddisgynnodd o 36% i 7%). Gweler ffigur 3.


## FFIGUR 3



### 3.1.2 Bro Morgannwg fel Lle i Fyw Ynddo


Roedd bron pawb yn fodlon â Bro Morgannwg fel lle i fyw ynddo (roedd 98% yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon). Er bod bodlonrwydd cyffredinol yn uchel iawn ym mhob ardal, roedd y ganran a nododd eu bod nhw'n fodlon iawn yn amrywio'n fawr fesul ardal rhwng 8% yn y Barri ac 84% yn Nwyrain y Fro. Gweler ffigur 4.

**FFIGUR 4**





Ychydig o amrywiad a gafwyd yn ôl oedran, rhyw neu grŵp economaidd-gymdeithasol gyda bodlonrwydd cyffredinol yn parhau i fod yn uchel ymhlith yr holl drigolion. Fodd bynnag, roedd y ganran a oedd yn fodlon iawn â'u hardal fel lle i fyw ynddi yn amrywio yn ôl oedran o 28% ymhlith grŵp oedran 16 – 34 i 45% ymhlith grŵp oedran 55+, ac yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol o 28% ymhlith DE a 51% ymhlith AB. Gweler ffigur 5.

## FFIGUR 5




Roedd cyfran debyg yn fodlon â'u hardal fel lle i fyw ynddi yn 2018/19 o gymharu â 2016/17 (roedd 98% yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon o gymharu â 97%), er bod y ganran a oedd yn fodlon iawn wedi gostwng o 75% i 39%. Gweler ffigur 6.

## FFIGUR 6




### 3.1.3 Canol Trefi

Gofynnwyd i'r trigolion pa mor aml yr oeddent yn ymweld â phob canol tref. Heol Holton, y Barri (32% unwaith yr wythnos neu'n amlach), Penarth (31%) a Stryd Fawr y Barri (27%) oedd y canol trefi mwyaf poblogaidd ar y cyfan. Gweler ffigur 7.


Fodd bynnag, fel y disgwyliwyd, roedd amlder yr ymweliadau yn amrywio gan ddibynnu ar le yr oeddech chi'n byw. Y rhai a oedd yn byw yn ardal y Barri oedd fwyaf tebygol o ymweld â Heol Holton (55% unwaith yr wythnos neu'n amlach) a Chanol Tref y Barri (46%). Roedd y rhai a oedd yn byw yn Nwyrain y Fro fwyaf tebygol o ymweld â Phenarth (70%) a'r rhai a oedd yn byw yng Ngorllewin y Fro fwyaf tebygol o ymweld â Llanilltud Fawr (37%) a'r Bont-faen (30%).

**FFIGUR 7**





O gymharu â 2016/17, roedd trigolion yn ymweld â chanol pob tref i raddau tebyg. Gweler ffigur 8.

**FFIGUR 8**




Gofynnwyd i'r rhai a oedd wedi ymweld â chanol y trefi i roi eu barn ar yr un yr oeddent wedi ymweld ag ef amlaf. Barn oddeutu chwech o bob 10 ar ystod a dewis o siopau (60%), apêl gyffredinol canol y dref (59%), a chanol y dref yn gyffredinol (57%) oedd da iawn neu eithaf da. Dim ond 22% oedd yn ystyried y parcio yn dda iawn neu'n eithaf da, gyda 75% yn ystyried hyn yn wael iawn neu'n eithaf gwael. Gweler ffigur 9.


**FFIGUR 9**



### 3.1.4 Arfordir Treftadaeth

Gofynnwyd i drigolion pa mor fodlon oeddent â'r arfordir treftadaeth. Roedd bron pawb (99%) naill ai'n fodlon iawn neu'n eithaf bodlon â'r arfordir treftadaeth ar y cyfan ac â'r llwybrau arfordirol yn y Fro (99%). Roedd dros 9 o bob 10 hefyd yn fodlon â'r cyfleusterau ar Ynys y Barri (94%) ac Ynys y Barri yn gyffredinol (93%). Gweler ffigur 10.


**FFIGUR 10**




Er nad oedd gwahaniaethau yn ôl ardal na demograffeg o ran bodlonrwydd trigolion â'r arfordir treftadaeth yn gyffredinol neu'r llwybrau arfordirol, roedd gwahaniaethau bach pan holwyd am Ynys y Barri. Y rhai a oedd yn byw yng Ngorllewin y Fro oedd y lleiaf bodlon â'r cyfleusterau ar Ynys y Barri (87% o gymharu â 96% yn y Barri a Gorllewin y Fro) ac Ynys y Barri yn gyffredinol (85% o gymharu â 97% yn y Barri a Gorllewin y Fro).

O gymharu â 2016/17, roedd y bodlonrwydd â'r llwybrau arfordirol a'r arfordir treftadaeth yn gyffredinol yn aros yn gyson. Fodd bynnag, cynyddodd y bodlonrwydd â'r cyfleusterau ar Ynys y Barri o (81% i 94%) a'r bodlonrwydd ag Ynys y Barri yn gyffredinol o 85% i 93%. Gweler ffigur 11.


**FFIGUR 11**



### 3.1.5 Parciau a Mannau Agored

Gofynnwyd i breswylwyr ba mor fodlon oeddent â'r parciau a'r mannau agored yn yr ardal. Dywedodd bron pawb eu bod nhw naill ai'n fodlon iawn neu'n eithaf bodlon â'r holl agweddau – parciau gwledig (roedd 98% yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon), y mannau agored (96%), y parciau (96%) a'r cyfleusterau chwarae (92%). Gweler ffigur 12.


**FFIGUR 12**




Nid oedd unrhyw wahaniaethau yn ôl demograffeg ardaloedd.

O gymharu â 2016/17, roedd y bodlonrwydd â’r llwybrau arfordirol a’r arfordir treftadaeth yn gyffredinol yn aros yn gyson. Gweler ffigur 13.

**FFIGUR 13**




### 3.1.6 Trafnidiaeth a Phriffyrdd

Gofynnwyd i'r trigolion pa mor fodlon oeddent ag agweddau amrywiol ar drafnidiaeth gyhoeddus a phriffyrdd. Roedd bodlonrwydd ar ei uchaf ynghylch mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus (roedd 87% yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon), gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus (83%), gwasanaethau bysiau (79%) a'r gwasanaethau rheilffyrdd (76%).

Roedd yr anfodlonrwydd mwyaf ynghylch cyflwr y ffyrdd (roedd 81% yn anfodlon iawn neu'n eithaf anfodlon), cyflwr y palmentydd (78%) a diogelwch ar y ffyrdd (60%). Gweler ffigur 14.

**FFIGUR 14**





Cafwyd rhai gwahaniaethau yn ôl ardal. Y rhai a oedd yn byw yn y Barri oedd fwyaf tebygol o fod yn anfodlon â chyflwr y ffyrdd (roedd 90% yn anfodlon o gymharu â 71% yng Ngorllewin y Fro a 77% yn Nwyrain y Fro), cyflwr y palmentydd (roedd 90% yn anfodlon o gymharu â 65% yng Ngorllewin y Fro a 73% yn Nwyrain y Fro) a diogelwch ar y ffyrdd (roedd 84% yn anfodlon o gymharu â 49% yng Ngorllewin y Fro a 31% yn Nwyrain y Fro).

Y rhai yng Ngorllewin y Fro oedd y lleiaf bodlon â'r gwasanaethau bysiau (72% o gymharu ag 80% yn y Barri ac 86% yn Nwyrain y Fro).

Y grŵp economaidd-gymdeithasol DE oedd y mwyaf bodlon â gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus (92%), mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus (93%) a gwasanaethau bysiau (87%).

O gymharu â 2016/17, roedd bodlonrwydd wedi parhau'n gyson â llawer o agweddau ar drafnidiaeth gyhoeddus, fodd bynnag, roedd bodlonrwydd â rhai agweddau wedi gostwng – trafnidiaeth gymunedol o 88% a oedd yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon i lawr i 62%, diogelwch ar y ffyrdd o 56% i lawr i 41%, cyflwr y palmentydd o 41% i lawr i 22%, a chyflwr y ffyrdd o 36% i lawr i 19%. Gweler ffigur 15.

**FFIGUR 15**




3.1.7 Ailgylchu a Rheoli Gwastraff

Gofynnwyd i drigolion pa mor fodlon oeddent ag agweddau amrywiol ar wasanaethau rheoli gwastraff ac ailgylchu. Roedd dros 9 o bob 10 o’r trigolion yn fodlon â’r cyfleusterau ailgylchu bwyd (roedd 95% yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon), cyfleusterau ailgylchu gwastraff yr ardd (95%), cyfleusterau ailgylchu (94%) a chanolfannau ailgylchu (94%).

Roedd yr anfodlonrwydd mwyaf yn ymwneud â safonau glendid (roedd 35% yn anfodlon iawn neu'n eithaf anfodlon). Gweler ffigur 16.

**FFIGUR 16**





Cafwyd rhai gwahaniaethau nodedig yn ôl ardal. Y rhai sy’n byw yn y Barri oedd y lleiaf bodlon â’r safonau glendid (roedd 51% yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon o gymharu â 64% yng Ngorllewin y Fro ac 88% yn Nwyrain y Fro), a’r rhai sy’n byw yn Nwyrain y Fro oedd y mwyaf bodlon (93%).

Y rhai sy’n yn byw yng Ngorllewin y Fro oedd y lleiaf bodlon â chanolfannau ailgylchu (roedd 71% yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon o gymharu â 92% yn y Barri a 94% yn Nwyrain y Fro) ac ailgylchu a nodiadau casglu gwastraff (roedd 78% yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon o gymharu ag 88% yn Nwyrain y Fro a 96% yn y Barri).

Mae bodlonrwydd wedi aros yn gyson o gymharu â’r llynedd o ran y rhan fwyaf o’r agweddau ac eithrio safonau glendid a ostyngodd o 93% a oedd yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon yn 2016/17, i 65% yn 2018/19, a chanolfannau ailgylchu a ostyngodd o 95% i 86%. Gweler ffigur 17.


**FFIGUR 17**



## 3.2 Teimlad o Ddiogelwch

Gofynnwyd i drigolion pa mor ddiogel oeddent yn teimlo mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae’r rhan fwyaf o breswylwyr naill ai’n teimlo'n ddiogel iawn neu'n eithaf diogel ym mhob sefyllfa. Gweler ffigur 18.


**FFIGUR 18**




Y rhai sy'n byw yng Ngorllewin y Fro oedd y mwyaf tebygol o deimlo'n anniogel wrth gerdded yn eu hardal leol (roedd 7% yn teimlo’n anniogel iawn neu'n eithaf anniogel o’i gymharu â 3% yn Nwyrain y Fro ac 1% yn y Barri).

O gymharu â 2016/17, arhosodd y teimlad o ddiogelwch yn gyson. Gweler ffigur 19.

**FFIGUR 19**




## 3.3 Gohebu â'r Cyngor

### 3.3.1 Dylanwadu ar Benderfyniadau a Wneir gan y Cyngor

Gofynnwyd i'r trigolion sut y byddent yn mynd ati i ddylanwadu ar benderfyniad a wneir gan y Cyngor pe bai nhw'n dymuno gwneud hynny. Ychydig o dan hanner (49%) fyddai'n *cysylltu â Swyddog Cyngor*, a byddai 32% arall yn *cysylltu â'u cynghorydd lleol*. Crybwyllwyd dulliau eraill gan gynnwys *llofnodi deiseb* (19%) a *chysylltu â swyddog etholedig arall* (13%). Dywedodd ychydig dros chwarter (26%) na fyddent yn ceisio dylanwadu ar benderfyniad. (28% yn 2016/17). Gweler ffigur 20.

**FFIGUR 20**




Y rheini a oedd yn byw yn y Barri (54%) ac AB (53%) a C1 (52%) oedd fwyaf tebygol o gysylltu â swyddog o'r cyngor.


Trigolion Dwyrain y Fro (43%) a grŵp oedran 55+ (37%) ac AB (48%) oedd y mwyaf tebygol o gysylltu â'u cynghorydd(43%).

Y rheini a oedd yn byw yng Ngorllewin y Fro (15%) ac AB (18%) oedd lleiaf tebygol o ddweud na fyddent yn ceisio dylanwadu ar benderfyniad.

Dim ond 1 o bob 5 o'r trigolion (21%) oedd yn cytuno y gallent ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan y Cyngor. Roedd bron i dri chwarter (74%) yn anghytuno.


Y rhai o'r grwp cymdeithasol AB oedd fwyaf tebygol o gytuno (35%) a'r rhai o'r grŵp DE oedd lleiaf tebygol o gytuno (11%). Gweler ffigur 21.

**FFIGUR 21**





Y rheini a oedd yn byw yn y Barri oedd y lleiaf tebygol o gytuno (12%), a'r rheini a oedd yn byw yng Ngorllewin y Fro oedd y mwyaf tebygol (31%), ac yna'r rheini yn Nwyrain y Fro (26%). Gweler Ffigur 22.

## FFIGUR 22




Mae cyfran y trigolion sy'n cytuno y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan y Cyngor wedi gostwng ychydig ers 2016/17, o 26% i 21%. Gweler ffigur 23.

## FFIGUR 23




### 3.3.2 Bodlonrwydd â Dulliau Gohebu

Er bod 84% yn fodlon â'r ohebiaeth gyffredinol gan y Cyngor, mynegodd 1 o bob 6 (16%) eu bod nhw'n anfodlon iawn neu'n eithaf anfodlon.

Gwybodaeth oddi ar wefan y Cyngor gafodd y lefel uchaf o fodlonrwydd (roedd 92% yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon).

Gyda negeseuon e-bost yr oedd bodlonrwydd ar ei isaf gyda 24% naill ai'n anfodlon iawn neu'n eithaf anfodlon. Gweler ffigur 24.

**FFIGUR 24**





Y rhai oedd yn byw yng Ngorllewin y Fro a'r Barri (88% ac 87%) a menywod (87%) a'r grŵp oedran 16 - 45 (87%) oedd y mwyaf bodlon â gohebiaeth gyffredinol y Cyngor.

Y rhai a oedd yn byw yn Nwyrain y Fro oedd y lleiaf bodlon (76%).

Mae'r gyfran sy'n fodlon â'r ohebiaeth gyffredinol gan y Cyngor wedi gostwng ychydig o 88% yn 2016/17 i 84% yn 2018/19. Gweler ffigur 25.

**FFIGUR 25**




Mae bodlonrwydd â phob agwedd ar ohebu wedi gostwng ers 2016/7:

- gwybodaeth oddi ar wefan y Cyngor (o 97% i 92%)
- gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol (o 92% i 83%)
- hysbysebion yn y papur newydd lleol (o 90% i 87%)
- llythyrau (o 88% i 80%)
- galwadau ffôn (o 86% i 80%)
- negeseuon e-bost (o 87% i 76%)

### 3.3.3 Bro Radio


Dywedodd 1 o bob 10 o'r trigolion eu bod nhw'n gwrando ar Bro Radio o leiaf unwaith yr wythnos (2% yn ddyddiol).

Y rhai mwyaf tebygol o wrando ar Bro Radio o leiaf unwaith yr wythnos oedd y rheini sy'n byw yng Ngorllewin y Fro (14%), grŵp oedran 16 – 34 (16%) a C2 (13%).

Dim ond 2% o'r rheini sy'n byw yn Nwyrain y Fro oedd yn gwrando ar Bro Radio o leiaf unwaith yr wythnos.

Roedd y trigolion yn gwrando ar Bro Radio ychydig yn llai aml nag yn 2016/17 (14%). Gweler ffigur 26.


**FFIGUR 26**



## 3.3.4 Defnyddio Gwefan a Gwasanaethau Ar-lein y Cyngor


Roedd dros ddwy ran o dair o'r trigolion (68%) wedi defnyddio gwefan y Cyngor yn ystod y 12 mis diwethaf. Dywedodd 67% eu bod nhw wedi ymweld â'r wefan Saesneg ac roedd 1% wedi ymweld â'r wefan Gymraeg. Roedd ymweliadau â'r wefan yn amrywio yn ôl ardal rhwng 75% o bobl yn y Barri a 60% o'r rheini sy'n byw yng Ngorllewin y Fro. Gweler ffigur 27.

**FFIGUR 27**





Cafwyd gwahaniaethau yn ôl oedran, ac roedd y grŵp oedran 55+ yn llai tebygol o fod wedi defnyddio'r wefan nag unrhyw grŵp oedran arall (62%). Roedd y tebygolrwydd o ddefnyddio'r wefan yn lleihau fesul dosbarth cymdeithasol, o 77% o AB i 62% o DE. Gweler ffigur 28.

## FFIGUR 28





Mae canran y bobl sy'n defnyddio'r wefan wedi cynyddu'n sylweddol ers 2016/7 o 40% i 68%. Gweler ffigur 29.

## FFIGUR 29




Pan ofynnwyd iddynt pa mor aml yr oeddynt yn defnyddio'r wefan, dywedodd dros draean y trigolion (36%) eu bod nhw'n ei defnyddio llai nag unwaith y mis. Fodd bynnag, honnodd ychydig dros 1 o bob 10 o drigolion (11%) eu bod nhw'n defnyddio'r wefan unwaith yr wythnos neu'n amlach. Gweler ffigur 30.

**FFIGUR 30**




Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn ymwybodol o nifer o wasanaethau a gynigir ar wefan y Cyngor. Roedd ymwybyddiaeth ar ei huchaf ar gyfer *talu'r dreth gyngor* (57%), *adrodd am gasgliad a gollwyd* (55%), *gwneud cais am gasgliad swmpus* (52%) ac *adrodd am dwll yn y ffordd* (50%). Roedd ymwybyddiaeth ar ei hisaf ar gyfer *cofrestru i siarad mewn cyfarfod pwyllgor* (9%), *gwneud ceisiadau trwyddedu* (10%) a *thalu ardrethi busnes* (10%). Gweler ffigur 31.

**FFIGUR 31**




Dywedodd dros dri chwarter y trigolion 77% y byddent yn defnyddio'r wefan i gael gafael ar y gwasanaethau nawr eu bod yn gwybod eu bod nhw ar gael. Rhoddodd y rhai a ddywedodd na fyddent yn defnyddio'r wefan y rhesymau canlynol:


- Nid oes cyfrifiadur/rhyngrwyd/e-bost ganddynt
- Mae'n well ganddynt siarad â rhywun
- Mae'n haws/gynt ffonio

## 3.4 Cyllideb y Cyngor

Gofynnwyd i'r trigolion a oeddent yn ymwybodol fod angen i’r Cyngor ddod o hyd i oddeutu £14 miliwn mewn arbedion yn ystod 2019/20. Dim ond 14% oedd yn gwbl ymwybodol, ac roedd 43% yn ymwybodol ond heb fod yn ymwybodol o faint yr arbediad. Ychydig dros 4 o bob 10 o’r trigolion (43%) oedd heb wybod.


Y rhai sy'n byw yn y Barri oedd y mwyaf tebygol o fod yn ymwybodol (17%) a’r rheini yn Nwyrain y Fro oedd y lleiaf tebygol (10%). Gweler ffigur 32.

**FFIGUR 32**





Hefyd, y grŵp AB oedd y mwyaf tebygol o fod yn ymwybodol (23%). Gweler ffigur 33.

## FFIGUR 33




Yn 2016/17, roedd cyfran debyg o drigolion yn gwbl ymwybodol o'r diffyg yng nghyllideb y Cyngor (13% oedd yn gwbl ymwybodol). Gweler ffigur 34.


## FFIGUR 34



Gofynnwyd i'r trigolion lunio rhestr mewn trefn blaenoriaeth o1 i 5 o'r dulliau y gallai'r Cyngor eu defnyddio i fynd i'r afael â'r diffyg cyllideb (1 yw'r dewis a ffafrir mwyaf a 5 yw'r dewis a ffafrir lleiaf). Cyflwynir canlyniadau fel sgôr cymedrig sy'n dangos mai'r agosaf yw'r sgôr cymedrig at 1, y mwyaf y ffafrir y dewis ymhlith y trigolion.

Mae'r siart canlynol yn dangos mai'r dewis a ffafriwyd oedd *cynyddu'r Dreth Gyngor i gyd-fynd â chyfartaledd Cymru* (gyda sgôr gymedrig o 2.1). Y dewis a ffafrid lleiaf oedd *darparu llai o wasanaethau* (gyda sgôr gymedrig o 4.6). Gweler ffigur 35.

**FFIGUR 35**





Yn 2016/17, y dewis a ffafrid oedd *datblygu gwasanaethau newydd a fyddai'n cynhyrchu incwm* â sgôr gymedrig o 1.3.

Y rhai sy'n byw yn y Barri oedd y mwyaf tebygol o fod o blaid cynyddu'r dreth gyngor i gyd-fynd â chyfartaledd Cymru gyda sgôr gymedrig o 1.4.

## 3.5 Amcanion y Cyngor

Rhoddwyd rhestr o amcanion y Cyngor i'r ymatebwyr a gofynnwyd iddynt a ddylent aros yn amcanion ai peidio. Roedd y mwyafrif helaeth o'r farn y dylid cadw'r holl amcanion. Yr amcan y dywedodd y ganran uchaf na ddylid ei gadw oedd Amcan 6: Gwerthfawrogi Diwylliant ac Amrywiaeth (12%). Gweler ffigur 36.

**FFIGUR 36**




Ffafrid Amcan 6 leiaf gan bobl yn Nwyrain y Fro gyda 22% ohonynt yn credu na ddylai fod yn amcan.

Roedd dros chwarter yr ymatebwyr (26%) yn teimlo bod materion eraill y dylai'r Cyngor fod yn canolbwyntio arnynt yn ystod y 5 mlynedd nesaf. Y rhai y cyfeiriwyd atynt fwyaf oedd:

- Seilwaith trafnidiaeth
- Ffyrdd a phalmentydd
- Parcio (ar gyfer preswylwyr ac mewn canol trefi)

# Atodiad 1 – Holiadur

EWCH AT BOBL 16 OED A DROSODD A DWEUD: Bore da/prynhawn da. Fy enw i yw ………. o Future Focus Research. Rydym yn galw ar ran Cyngor Bro Morgannwg sy’n cynnal arolwg o farn y cyhoedd ymhlith ei drigolion. A allwch sbario 10 munud i ateb ychydig o gwestiynau? Bydd eich holl atebion yn gyfrinachol ac ni fydd y Cyngor yn gweld unrhyw rai o’ch atebion unigol.  A ydych yn fodlon cymryd rhan? Ydw. Parhewch â’r holiadur. Nac ydw. Dewch â’r holiadur i BEN. A allaf ofyn a ydych yn gweithio i Gyngor Bro Morgannwg? Ydw. Dewch â’r holiadur i BEN. Nac ydw. Parhewch â’r holiadur.

WARD
1. Baruc
2. Buttills
3. Cadoc
4. Castleland
5. Cornerswell
6. Court
7. Cowbridge
8. Dinas Poweys
9. Dyfan
10. Gibbonsdown
11. Illtyd
12. Llandough
13. Llandow/Ewenny
14. Llantwit Major
15. Peterson-Super-Ely
16. Plymouth
17. Rhoose
18. St Athan
19. St Augustines
20. St Bride's Major
21. Stanwell
22. Sully
23. Wenvoe

RHYW
1. Gwryw
2. Benyw

OED
1. 16 - 34
2. 35 - 54
3. 55+

Gradd economaidd-gymdeithasol
Y cyfwelydd i holi ynghylch galwedigaeth, cymwysterau, ac ati, i gadarnhau'r radd gymdeithasol

1. AB
2. C1
3. C2
4. DE
5. Anhysbys/gwrthod dweud

**CANOL TREFI**

C1. Pa mor aml ydych chi wedi ymweld â chanol y trefi canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? DANGOSWCH GARDEN C1

| | Yn ddyddiol | O leiaf unwaith yr wythnos | O leiaf unwaith y mis | Llai nag unwaith y mis | Ddim o gwbl | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Barri (Heol Holton) | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Y Barri (Stryd Fawr) | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Penarth | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Y Bont-faen | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Llanilltud Fawr | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

C1b. Pa canol dref ydych chi'n ymweld â fwyaf aml?

1. Y Barri (Heol Holton)
2. Y Barri (Stryd Fawr)
3. Penarth
4. Y Bont-faen
5. Llanilltud Fawr
6. Dim

C2. Gan feddwl am y ganol dref ur ydych yn ymweld a'r fwyaf aml, sut fyddech chi'n graddio'r canlynol: CERDYN C2

| | Da iawn | Eithaf da | Eithaf gwael | Gwael iawn | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Amrywiaeth a dewis o siopau | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Atyniad canol y dref | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Argaeledd mannau parcio | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Canol y dref yn gyffredinol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

## Y BARRI A'R ARFORDIR TREFTADAETH

C3. Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi ar y canlynol: CERDYN C3

| | Bodlon iawn | Eithaf bodlon | Eithaf anfodlon | Anfodlon iawn | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Y cyfleusterau yn Ynys y Barri | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Ynys y Barri yn gyffredinol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Llwybrau'r arfordir yn y Fro | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Yr arfordir treftadaeth yn gyffredinol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

## PARCIAU A GERDDI

C4. Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi ar olwg gyffredinol y canlynol:
CERDYN C4

| | Bodlon iawn | Eithaf bodlon | Eithaf anfodlon | Anfodlon iawn | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Mannau agored | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Parciau | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cyfleusterau chwarae | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Parciau gwledig | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

## PRIFFYRDD A THRAFNIDIAETH

C8. Pa mor fodlon ydych chi ar yr agweddau canlynol ar drafnidiaeth gyhoeddus a phriffyrdd ym Mro Morgannwg?
CERDYN C5

| | Bodlon iawn | Eithaf bodlon | Eithaf anfodlon | Anfodlon iawn | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gwasanaethau bysiau | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Trafnidiaeth gymunedol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gwasanaethau trenau | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cyflwr y ffyrdd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cyflwr y palmentydd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Diogelwch ffyrdd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

## AILGYLCHU A CHASGLU GWASTRAFF

C6. Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi ar y canlynol:
CERDYN C6

| | Bodlon iawn | Eithaf bodlon | Eithaf anfodlon | Anfodlon iawn | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfleusterau ailgylchu cymysg | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cyfleusterau ailgylchu bwyd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cyfleusterau ailgylchu gwastraff gardd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Casgliadau gwastraff cyffredinol y cartref | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Canolfannau ailgylchu | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Atgoffa ailgylchu a chasglu gwastraff | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Safonau glendid | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

## DIOGELWCH Y GYMUNED

C7. Pa mor ddiogel ydych chi'n teimlo yn y sefyllfaoedd canlynol:
CERDYN C7

| | Diogel iawn | Eithaf diogel | Eithaf anniogel | Anniogel iawn | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Yn y cartref | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cerdded yn eich ardal leol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Teithio ar y bws | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Teithio mewn car | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Teithio ar y tren | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Teithio ar drafnidiaeth gymunedol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

C8. Pa mor fodlon ydych chi gyda phlismona yn eich ardal leol?
CERDYN C8
1. Bodlon iawn
2. Bodlon
3. Ddim yn fodlon nac yn anfodlon
4. Anfodlon
5. Anfodlon iawn
6. Ddim yn gwybod

C9. A fyddech yn teimlo'n hyderus i roi gwybod i Heddlu De Cymru am ddigwyddiad?
1. Byddwn
2. Na fuaswn

C10. Ydych chi'n gwybod beth yw rôl a chyfrifoldebau eich Comisiynydd Heddlu a Throseddu?
1. Ydw
2. Nac Ydw

## CYFATHREBU GYDA'R CYNGOR

C11. Os oeddech am ddylanwadu ar benderfyniad neu benderfyniadau a wnaed gan y Cyngor, pa un o'r canlynol fyddech chi'n ei wneud?

1. Cysylltu â swyddog y cyngor
2. Cysylltu â'm cynghorydd lleol
3. Cysylltu â swyddog etholedig arall (ee AS, AM, ASE)
4. Cysylltu â grŵp gwirfoddol neu gymunedol lleol
5. Cysylltu â'r wasg leol
6. Mynychu cyfarfod Cyngor y Fro
7. Mynychu cyfarfod Cyngor
8. Tref neu Gyngor Cymunedol
9. Mynychu cyfarfod cyhoeddus/cymunedol
10. Llofnodi deiseb
11. Ni fyddwn yn ceisio dylanwadu ar benderfyniad a wneir gan y Cyngor

C12. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y gallwch ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan y Cyngor?

1. Yn cytuno'n gryf
2. Yn cytuno
3. Yn anghytuno
4. Yn Anghytuno'n gryf
5. Dydw i ddim yn gwybod

## CYFATHREBU GAN Y CYNGOR

C13. Pa mor fodlon ydych chi â'r dulliau cyfathrebu canlynol:
CERDYN 13

| | Bodlon iawn | Bodlon | Eithaf anfodlon | Anfodlon iawn | Heb ateb |
|---|---|---|---|---|---|
| Llythyrau | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| E-byst | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Galwadau ffôn | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gwybodaeth ar wefan y Cyngor | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Hysbysebion yn y papur lleol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cyfathrebu cyffredinol gan y Cyngor | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

C14. Pa mor aml, os o gwbl, ydych chi'n gwrando ar Bro Radio (gorsaf radio gymunedol Bro Morgannwg)?

1. Dyddiol
2. O leiaf unwaith yr wythnos
3. O leiaf unwaith y mis
4. Llai nag unwaith y mis
5. Ddim o gwbl

**DEFNYDDIO GWASANAETHAU AR-LEIN**

C15a. A ydych chi wedi defnyddio gwefan y Cyngor yn y 12 mis diwethaf?
1. Do, rwyf wedi defnyddio www.valeofglamorgan.gov.uk
2. Do, rwyf wedi defnyddio www.bromorgannwg.gov.uk
3. Naddo

C15b. Os mai do yw'r ateb, pa mor aml ydych chi'n defnyddio'r wefan?
1. Yn ddyddiol
2. O leiaf unwaith yr wythnos
3. O leiaf unwaith y mis
4. Llai nag unwaith y mis

C16a. Yn ogystal â chynnig gwybodaeth am holl wasanaethau'r Cyngor, ydych chi'n ymwybodol bod y wefan hefyd yn caniatáu i chi wneud y canlynol ar-lein?
CERDYN Q16a
1. Talu treth y cyngor
2. Talu cyfraddau busnes
3. Talu ffioedd trwyddedu
4. Gwneud cais am gasgliad swmpus
5. Gwneud cais am fathodyn glas car
6. Gwneud cais am drwydded parcio
7. Archebu caban glan môr
8. Cofrestru i siarad mewn cyfarfod pwyllgor
9. Adrodd ynglŷn â thwll mewn ffordd
10. Adrodd ynglŷn â chasgliad wedi'i fethu
11. Adrodd am dipio anghyfreithlon
12. Adrodd am gŵn yn baeddu
13. Adrodd am fater parcio
14. Adrodd am fater parcio
15. Gweld cais cynllunio
16. Gwneud cais am swydd
17. Gwneud cais am fudd-daliadau
18. Gwneud ceisiadau trwyddedu

C16b. Nawr eich bod yn ymwybodol bod y gwasanaethau hyn ar gael ar-lein, a fyddech yn defnyddio gwefan y Cyngor i ddefnyddio'r gwasanaethau hyn yn hytrach na chysylltu â ni dros y ffôn neu wyneb yn wyneb?
1. Byddwn
2. Na fyddwn

**AIL-LUNIO GWASANAETHAU – Y GYLLIDEB**

C17. Mae Cyngor Bro Morgannwg yn rhagweld y bydd angen canfod gwerth tua £14m o arbedion yn 2019/20. Dyna ostyngiad o tua 6% o'i gyllideb gyfredol. Cyn heddiw oeddech chi'n ymwybodol o'r diffyg?
1. Oeddwn, roeddwn i'n gwbl ymwybodol
2. Oeddwn roeddwn i'n ymwybodol, ond nid i ba raddfa
3. Nac oeddwn, nid oeddwn i'n gwybod fod y Cyngor yn wynebu hyn

C18. Mae'r Cyngor eisoes wedi gorfod gwneud nifer o benderfyniadau anodd i nodi ble y gellir gwneud arbedion a bydd y broses hon yn parhau. Ni all y Cyngor fynd i'r afael â'i ddiffyg yn y gyllideb drwy arbedion yn unig.

Ym mha drefn y byddech yn blaenoriaethu'r dulliau canlynol o fynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb? (1-5, ble dylai 1 gael ei wneud yn gyntaf)

1. Cynyddu'r dreth gyngor i'r cyfartaledd yng Nghymru
2. Tâl am wasanaethau sydd am ddim ar hyn o bryd
3. Cynyddu'r taliadau am wasanaethau y mae pobl yn talu amdanynt eisoes
4. Datblygu gwasanaethau newydd a fyddai'n cynhyrchu refeniw
5. Darparu llai o wasanaethau

C19. Ar y cyfan, pa mor fodlon ydych chi gyda'r canlynol:
CERDYN C19

| | Bodlon iawn | Bodlon | Eithaf anfodlon | Anfodlon iawn | Heb ateb |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Bro Morgannwg fel lle i fyw | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

**CYNLLUN CORFFORAETHOL 2020 - 2025**

DARLLENWCHMae gan y Cyngor ddyletswydd i baratoi cynllun sy'n llunio gweledigaeth ar gyfer dyfodol Bro Morgannwg. Wedi'u cynnwys yn y cynllun mae 8 amcan sy'n nodi sut y caiff y weledigaeth hon ei gwireddu. Mae'r cwestiynau canlynol i ganfod a yw'r amcanion presennol yn dal i fod yn berthnasol ac y dylent fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor.

C20. Amcan 1: Lleihau Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol – Mae hyn yn golygu bod pawb yn cael safon byw foddhaol ac yn teimlo'n rhan o'r gymuned e.e. drwy weithio gyda busnesau a chymunedau lleol a thrwy roi cyngor a chymorth i deuluoedd ar incwm isel.
A ddylai hyn barhau i fod yn un o'n hamcanion?
1. Dylai barhau i fod yn un o Amcanion y Cyngor
2. Na, ni ddylai

C21. Amcan 2: Darparu cartrefi gweddus a chymunedau diogel - mae hyn yn golgu bog gan bawb rywle gweddus i fyw a'i fod yn teimlo'n ddiogel e.g delio ag ymddygiad wrth gymdeithason.
A ddylai hyn barhau i fod yn un o'n hamcanion?
1. Dylai barhau i fod yn un o Amcanion y Cyngor
2. Na, ni ddylai

C22. Amcan 3: Hyrwyddo Adfywio, Twf Economaidd a Chyflogaeth – Mae hyn yn golygu cymryd camau i ddenu buddsoddiad, swyddi ac ymwelwyr i'r ardal a gwella ein ffyrdd a'r amgylchedd lleol e.e. canol trefi, Glannau'r Barri.
A ddylai hyn barhau i fod yn un o'n hamcanion?
1. Dylai barhau i fod yn un o Amcanion y Cyngor
2. Na, ni ddylai

C23. Amcan 4 hyrwyddo datblygu cynaliadwy a diogelu ein hamgylchedd – Mae hyn yn golygu hyrwyddo beicio a gwella mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus, gofalu am ein traethau a lleihau gwastraff e.e. drwy sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol yn darparu fframwaith ar gyfer datblygu cynaliadwy yn y Fro.
A ddylai hyn barhau i fod yn un o'n hamcanion?
1. Dylai barhau i fod yn un o Amcanion y Cyngor
2. Na, ni ddylai

C24. Amcan 5: Codi Safonau Cyflawniad Cyffredinol - Mae hyn yn ymwneud â gwella ein hysgolion a helpu dinasyddion o bob oedran i gyflawni e.e. drwy foderneiddio ein hysgolion a darparu cyfleoedd dysgu i oedolion
A ddylai hyn barhau i fod yn un o'n hamcanion?
1. Dylai barhau i fod yn un o Amcanion y Cyngor
2. Na, ni ddylai

C25. Amcan 6: Gwerthfawrogi Diwylliant ac Amrywiaeth - Mae hyn yn ymwneud â chydnabod yr amrywiaeth yn ein cymunedau lleol, hyrwyddo'r Gymraeg a chydnabod pwysigrwydd diwylliant e.e. hyrwyddo'r celfyddydau a chyflwyno amrywiaeth eang o wasanaethau drwy ein llyfrgelloedd.
A ddylai hyn barhau i fod yn un o'n hamcanion?
1. Dylai barhau i fod yn un o Amcanion y Cyngor
2. Na, ni ddylai

C26. Amcan 7: Annog a hyrwyddo ffyrdd actif ac iach o fyw - Mae a wnelo hyn â darparu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden a hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw, e.e. pwysigrwydd chwarae a'n parciau
A ddylai hyn barhau i fod yn un o'n hamcanion?
1. Dylai barhau i fod yn un o Amcanion y Cyngor
2. Na, ni ddylai

C27: Amcan 8: diogelu'r rhai sy'n agored i niwed a hyrwyddo byw'n annibynnol - Mae hyn yn golygu darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol o safon i bobl, boed yn henoed neu'n iau, a allai fod angen ychydig mwy o help a chymorth e.e. drwy wella mynediad at wasanaethau a gweithio’n agosach â gwasanaethau iechyd
A ddylai hyn barhau i fod yn un o'n hamcanion?
1. Dylai barhau i fod yn un o Amcanion y Cyngor
2. Na, ni ddylai

C28. Ar ôl adolygu amcanion presennol y Cyngor, a ydych yn credu bod yna unrhyw beth arall y dylai'r Cyngor fod yn canolbwyntio arno yn y 5 mlynedd nesaf?
1. Ydw
2. Nac Ydw

DIOLCH A GORFFEN A ROI NODYN DIOLCH